

# Gair bach Bethlehem 18



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 18 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



## Gwyliau Awst...

... a gwyliau gwahanol i lawer eleni, siwr o fod!

Mae 18 wythnos wedi mynd heibio ers i ni weld rhifyn cyntaf "Gair bach Bethlehem" (ar y *chwith*) ar ddechrau'r meudwyo mawr. Drwy'r holl gyfnod y bu'n rhaid i ni encilio o bob math o fannau, gan gynnwys yr oedfaon yng Ngwaelod-y-Garth, mae ysgrifau ein cyfranwyr, ynghyd â lluniau hen a newydd, wedi cael eu darllen a'u gwerthfawrogi'n fawr. Diolch i bawb fu wrthi.

**Dros y cyfan o fis Awst, rydyn ni gyd am gael hoe fach. Fe fyddwn yn ôl gyda'r rhifyn nesaf ar gyfer y Sul cyntaf ym mis Medi - sef Medi 6<sup>ed</sup>.**

Daliwch i ysgrifennu ar ba bynnag bwnc ddaw i'ch ysbrydoli. Anelwch i anfon eich cyfraniadau erbyn **dydd olaf Awst** – neu unrhyw adeg cyn hynny – at [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com).

Mae neges Delwyn y tro hwn ar dudalen 7. Ei eiriau ar ddiwedd y rhifyn cyntaf oedd "... **gwnawn y gorau felly o bob heddiw, nes daw yfory gwell.**" Mae pethau'n gwella, a dichon bydd sawl "yfory gwell" eto cyn daw dechrau Medi.

*Ifan Roberts*

## Yr oedfaon ar-lein yn parhau

Yn dilyn awgrym gan Geraint Rees (Tabernacl, Efail Isaf) y byddai cyd-addoli yn bosibl yn rhithiol yn ystod mis Awst, cytunwyd â'r drefn isod am-yn-ail i ddarparu oedfaon ar y Suliau canlynol (daw manylion cysylltu â'r oedfaon cyn bo hir) :

- 2 Awst – Parchedig R Alun Evans**
- 9 Awst – Tabernacl, Efail Isaf**
- 16 Awst – Delwyn Sion**
- 23 Awst – Tabernacl, Efail Isaf**
- 30 Awst – Rhodri-Gwynn Jones**



## Dathlu Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Gwenan a Wyndham Richards, Radur, ar ddathlu eu priodas aur y mis hwn. Yng nghapel Penny Lane, Lerpwl, y priodwyd nhw ym 1970, gan Y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. (John Ifans, Radur, oedd y gwas priodas.) Er i'w llwybrau gyd-gyffwrdd adeg Prifwyl Y Bala, 1967, yng Nghaerdydd y cyfarfu'r ddau go iawn, Gwenan wedi dod yma o lannau Merswy i nyrsio a Wyndham wedi ymuno â'r BBC. Dydy capel Penny Lane ddim yno bellach. Cafodd ei dynnu lawr yn 2011 (bron i hanner can mlynedd wedi i'r Beatles ganu am y stryd honno!) Oherwydd yr amodau presennol, ni chafwyd (hyd yma) y dathliad mawr oedd yn cynnwys mynd i wleda yn y "Talbot", Tregaron – ardal enedigol Wyndham!



Gwenni ac Aaron



Sara, Megan ac Awen



Luned ac Ifan



Mabon a Trystan

Buom yn darllen y stori am Mair a Martha yr wythnos hon a roedd y plant wrth ei bodd yn trafod beth oedd nodweddion y ddwy. Fe wnaethon ni sôn am deulu a ffrindiau a pha mor bwysig yw eistedd o gwmpas y ford bwyd i drafod pob math o bethau. Fe wnaethon ni ddweud gweddi fach o ddiolch i'r Iesu ac i ofyn am ei help i fod yn amyneddgar ac ystyriol o bobl eraill.

Hwn oedd y sesiwn olaf i'r Ysgol Sul am y tro ac fe hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r plant i gyd am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd o wythnos i wythnos, ac i ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth. Mae llawer iawn o grefftau wedi'u creu yn ystod y cyfnod clo – mae llunio o nifer ohonynt wedi ymddangos yn Gair Bach - ac yr wy' wedi gofyn i'r plant gadw cymaint o'r cynnyrch a phosibl fel y gallwn greu arddangosfa fach o'u gwaith pan fydd y rheolau yn caniatáu.

Heulwen Jones

[heulwen@btinternet.com](mailto:heulwen@btinternet.com)

07779 360614

*Mae'n dyled yn fawr i Heulwen am fod mor weithgar dros yr holl gyfnod gyda'r Ysgol Sul ar y we. Bu'n ddiwyd yn arwain y gweithgareddau ac mae hithau'n ddiolchgar am gefnogaeth y rhieni ymunodd gyda'u plant yn y sesiynau. (A diolch i'r uwch-dechnegydd Wyn am bob cymwynas ac arweiniad)*



## Dafi Rhys yn eich cyfarch



Wel helo eto! Dafi Rhys yn galw unwaith yn rhagor ac yn manteisio ar y gofod yn "Gair bach Bethlehem" i'ch cyfarch yng nghyfnod y "Gofid mawr". Gobeithio eich bod yn dal i gadw'n iach ac yn dechra' gweld mymryn o olau yn rhywla ar y gorwel a all godi calon a chynnal gobaith. Mae 'na beth gola' wedi bod yn tŷ ni ers i ni sgwrsio ddwytha' – mi ges i mam i fi fy hun am un diwrnod cyfa' cofiwch, oherwydd bu Wil, fy mrawd mawr, yn yr ysgol.

Ac ar sail hynny, un diwrnod bob rhyw dri mis, mi fydda innau hefyd yn edrach 'mlaen i fynd i'r ysgol pan fyddaf yn hogyn 'run oed a fo. Os 'di fy mathemateg i yn gywir, dim ond am bedwar diwrnod y bydd yn rhaid i mi fynd i'r ysgol mewn blwyddyn, llai ella, pan na fydd hi'n flwyddyn

naid! Ac ar sail y pedwar diwrnod hwnnw ma disgwyl i mi ddysgu darllan, gwneud syms, lliwio, canu, downshio gwerin, parti cyd-adrodd a llu o betha' eraill, fel fy mod yn gymwys i gael digon o gwalifficeshions i fynd i'r coleg neu gael joban. Mi fetia i mai "hòps mul mewn Grand National" fydd taid yn ddeud am hynny!

A mae 'na lot o sôn am fybls wedi bod yn ddiweddar hefyd yn 'does. Wn i ddim be ydi bybls chwaith, ond ma 'na ddisgwyl i deuluoedd fynd a'u bybls hefo nhw pan maen nhw'n ymweld a'u teulu. Mae gin y bobol sy'n byw fyny'r lôn o tŷ ni garafanet tu allan i'w tŷ yn barod, a dwi ddim yn gweld cweit bod 'na ddigon o le iddyn nhw i barcio bybls yna hefyd. A lle mae prynu'r fath betha tybad? Oes 'na ffatri neu siop gwerthu bybls yn eich ymyl chi yn rhywla?

A mi ellai weld trafferthion pan fydd mam isho mynd a'r bybl i un man a dad isho mynd a fo i gyfeiriad arall – mae nhw wedi bod yn trafod dros frechwast yn barod, ond ma nhw'n siarad a llais isal pan mae Wil a finau yn dechra clustfeinio, felly dwi ddim yn siŵr sut mae petha'n edrach ar hyn o bryd.

Dwi ddim yn siŵr a ydwi isho byw mewn bybl beth bynnag, ond mi wn y bydd yn saith gwaeth ar bawb ohonom os bydd i'r bybl honno fyrstio, a'n cyfeillgarwch teuluol yn racs-jibi-ders o'r herwydd! O wel, un tro arall rownd y parc amdani felly, fel ddoe ac echdoe, a phob diwrnod arall ers mis Mawrth. Cofiwch ddeud "helo" wrthyn ni os dewch i'n cwfwr! Cadwch yn saff yn y cyfamser.

## Allan yn dathlu 50 mlynedd ers ei ordeinio

Longyfarchiadau i'r Parchedig Allan Pickard ar ddathlu 50 mlynedd ers ei ordeinio'n weinidog yn Horeb, Penydarren, Merthyr Tudful. Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, oedfa ar Zoom gafodd ei chynnal, am y tro, i nodi'r achlysur. (Rydyn ni wedi bod yn haerllug a benthyg y lluniau ddoe a heddiw o Allan o'r rhifyn cyfredol o'r Tyst, lle mae'r hanes i'w weld yn llawn.)



Ar ôl gair gyda Delwyn o'n ni'n meddwl fod hi'n amser i wneud cyfraniad i Air Bach Bethlehem. Yr esgus am beidio gwneud hyn yn gynharach oedd diffyg hyder yn fy allu i ysgrifennu Cymraeg. Tra'n gwneud VSO yng Nghaint am 38 mlynedd, yr unig Gymraeg o'n i'n ysgrifennu oedd "Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda", "Penblwydd Hapus" ac, yn achlysurol, "Gyda Chydymdeimlad". Ond bant a fi!



**2020 - Blwyddyn ryfedd i 'weud y lleiaf.** Y flwyddyn pan mae'r bin sbwriel wedi bod mas fwy na fi! Mae'r holl weithgareddau rydyn ni'n eu mwynhau yn ystod yr haf naill ai wedi'u gohirio neu eu canslo. Wy'n teimlo'n flin yn enwedig am yr aelodau oedd yn edrych ymlaen am Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron. Hefyd, meddwl am y parau sydd wedi gorffod newid dyddiad eu priodas. Dw i'n siŵr taw nid fi yw'r unig un mewn eiliad dawel cyn mynd i gysgu, sy'n gofyn i Dduw am wyrth i ddigwydd i ddod a Covid-19 i ben.

Mae Allan Pickard wedi bod yn ymweld â'r Efengylau ac mae rhaid i fi ddiolch am ei waith yn paratoi'r ffordd i Efengyl Ioan. Yn y llyfr mae'r gwyrthiau yn cael eu galw yn arwyddion, ac mae saith ohonyn nhw. Y wyrth gynta oedd troi dŵr yn win mewn priodas yn Cana.

**Darlleniad: IOAN 2 1-11.**

Yn amser yr Iesu roedd yr Hydref yn amser da ar gyfer priodasau gan fod y cynhaeaf wedi'i gwblhau, tywydd yn dal yn braf, a phawb yn edrych ymlaen i ddathlu. Roedd mam Iesu yn y briodas (ond nid yn cael ei galw'n Mair), yr Iesu a'i ddisgyblion. Does neb yn siŵr ble mae lleoliad Cana, ond bydden i'n meddwl dim yn rhy bell o Nasareth. Efallai bod Mair yn perthyn i un o'r rhai oedd yn priodi. Dyletswydd y priodfab oedd gwneud yn siŵr fod digon o win i bawb fwynhau. Pan o'dd hi yn amlwg fod y gwin bron a gorffen, aeth Mair i gael gair gyda'r Iesu. Mae ateb yr Iesu yn swrth, os nad yn anghwrtais, ond yn y Groeg gwreiddiol mae'n dweud "Madam, beth sydd gan hyn i'w wneud â fi." Efallai bod yr Iesu'n newid o fod yn fab ffyddlon, i gychwyn ei daith i Jerwsalem.

Mae Mair yn dweud wrth y caethweision i wneud beth mae'r Iesu'n ei ddweud. Mewn sawl ffydd mae 'na draddodiad o ddefod glanhau ysbrydol. Yn **Luc 11 adnod 39** mae'r Iesu yn dweud bod y Phariseaid yn canolbwyntio ar y glanhau allanol, ond heb fod yn canolbwyntio ar y tu fewn. Yn y briodas yn Cana roedd 'na chwech o lestri carreg, ac mae'r Iesu'n dweud wrth y caethweision i lanw'r llestri â dŵr. Mae'r wyrth yn digwydd o droi y dŵr yn win. Gwin, yn draddodiadol, yw'r symbol canolog ar gyfer trawsnewid. Mae gwin hefyd yn symbol o fywyd newydd - y bywyd newydd yng Nghrist. Roedd pawb yn cytuno mai hwn oedd y gwin gore. Yn adnod un ar ddeg, ar ôl gweld y wyrth, mae'r disgyblion yn credu yn yr Iesu.

Pa well ffordd i orffen na gydag emyn hyfryd Rhys Nicholas ar Pantyfedwen?

*Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,  
tydi a roddaist imi flas ar fyw:  
fe gydaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,  
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;  
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n  
parhau,  
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;  
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,  
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.*

*Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,  
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;  
lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,  
lle'r oeddwn gynt yn ddall, 'rwy'n gweld yn  
awr;  
mae golau imi yn dy Berson hael,  
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;  
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,  
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.*

*Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un  
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;  
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,  
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;  
mae melodïau'r cread er dy fwyn,  
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn;  
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,  
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.*

Jyst cyn gorffen: Fe **fydd** yna haul ar fryn - Fe **fydd** gwell yfory i ddod - Cadwch yn ddiogel.

"Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll."

**Diolch yn fawr am eich help.**





Pan sylweddolles i mai testun y ddwy erthygl dd’wethaf yr anfonnes i at y “Gair Bach” oedd llwyni rhosod a morgrug yn yr ardd fe ddes i’r casgliad fod y “cyfnod cloi” wedi cyfyngu cryn dipyn ar y ffordd dwi’n gweld y byd. Daeth yn amser i ehangu gorwelion! Gan nad ydw i mewn sefyllfa i drefnu taith i Asia neu Affrica ar hyn o bryd fe ddaeth achubiaeth o gyfeiriad annisgwyl - “Geoguessr”!

‘App’ ar gyfer cyfrifiadur, tabled neu ffôn yw “Geoguessr” ac mae’n defnyddio darluniau o wefan Google Street View i’ch hyrddio i unrhyw fangre ar wyneb y blaned - unrhyw fangre, hynny yw, lle tynnwyd lluniau gan gerbydau holl-bresennol Google. Eich tasg chi wedyn yw dyfalu yn union lle y byddwch wedi glanio, rhoi pin ar fap i ddynodi eich cynnig ac wedyn bydd “Geoguessr” yn dangos pa mor agos, neu bell,

ydych chi o’r ateb cywir. Fe allwch dreulio trwy’r dydd yn crwydro o lun i lun, yn “symud” fel petai o stryd i stryd yn chwilio am gliwiau i’r lleoliad, neu fe allwch osod cyfyngiad amser o funud neu ddau a herio’ch hun i ddyfalu’n gyflym. Dyna fydda i’n hoffi’i wneud - ac mae’r profiad rywbeth yn debyg i hyn...

**Llun un** - Heol darmac hir yn ymestyn am filltiroedd, ceir yn gyrru ar y dde, llinellau ffordd melyn, arwyddion cyflymder mewn milltiroedd yr awr... mae’n edrych fel canol yr Unol Daleithiau. Sticer “Stars and Stripes” ar gefn y lori acw ac mae arwydd ffordd yn y pellter. Clicio’n frysiog gan fod yr eiliadau yn diflannu’n gyflym ar y cloc yng nghornel y sgrîn. Cyrraedd yr arwydd ffordd “Indian Creek”. Amser dyfalu... Utah, Wyoming, Nebraska? Dim syniad! Panig! Gollwng y ‘pin’ yng nghanol Wyoming... a dyna fy munud ar ben! Dwi’n bell ohoni! Gannoedd o gilometrau i’r dwyrain mae’r faner yn dangos fod “Indian Creek” rywle rhwng Milwaukee a Chicago... a finne wedi casglu ychydig iawn o’r pum mil o bwyntiau oedd ar gael! O wel, ymlaen i’r nesaf...

**Llun dau** - Mae’r haul yn tywynnu’n llachar ar lôn lychlyd trwy goedwig - coed palmwydd neu goed bananas? Mae marchnad liwgar fan draw yn llawn arwyddion mewn ysgrifen annealladwy. Iaith Thai, neu Indonesia? Mae’r merched yn y llun yn gwisgo pen-wisgoedd Mwslimaidd, felly dwi’n dyfalu mai Malaysia yw’r wlad. Teml ar y chwith ond, eto, ydw i ddim yn gallu gwneud pen na chynffon o’r orgraff anghyfarwydd. Baner goch a gwyn yn hongian y tu allan i dŷ pren. Mae’n amser dyfalu! Rhywle gwledig, i’r gogledd o Kuala Lumpur - a dyna’r pin yn ei le. A’r ateb - un o ynysoedd Indonesia, rai cannoedd o gilometrau i ffwrdd ond o leiaf roeddwn i yn y gornel iawn o’r byd.

**Llun tri** - O na! Anialwch go iawn! Pererin wyf, yn clicio yma a thraw, yn symud ar hyd ffordd lychlyd, garegog, yn trio chwilio am unrhyw gliw o gwbl yn yr amgylchfyd undonog hwn. Dim pant na bryn, dim cerbyd... waeth i fi fod ar wyneb y lleuad (heblaw am y ffaith nad yw cerbydau Google hyd yn oed wedi cyrraedd mor bell â hynny!). Wn i ddim. Rhoi’r gorau iddi a rhoi pin yng nghanol Kazakhstan! Rydw i 15,437.4 cilomedr allan ohoni gan mai rhywle yn ochre Santa Rosa yn Chile oedd yr anialwch llwm. Dwi’n atgoffa fy hun i beidio â mynd yno ar frys!

**Llun pedwar** - Dyma welliant! Canol dinas lewyrchus, ceir yn gyrru ar y dde, siopau ag enwau Sbaeneg, tŵr eglwys yn y pellter. Mae hyn yn gyffrous. Tai bwyta a chaffis â byrddau tu allan. Ydy’r sgwâr yma’n edrych yn gyfarwydd? Barcelona efallai, neu Malaga? Dwi’n dyfalu Valencia - ac yn cael andros o siom wrth ddod i ddeall mai ym Mexico oedd y sgwâr a ‘mod i ymhell, bell ohoni unwaith yn rhagor. Un cynnig yn weddill...

**Llun pump** - ffordd darmac dywyll trwy’r coed tuag at bentref gwledig a mynydd yn codi’n serth ar y chwith y tu ôl i res o dai teras. Arwydd 20 milltir yr awr. Dros y ‘speed-bumps’; ysgol draddodiadol ar y dde ac adeilad isel y drws nesaf iddo - neuadd bentref yn ôl yr arwydd y tu allan. Dwi’n gweld adeilad mwy o lawer ar y chwith... capel solet ond urddasol, to yn codi i bigyn, blwch postio yn y wal tu allan a grisiau a ramp taclus yn codi at y prif ddrws. Mae’r drysau yn llydan agored ac mae’r haul yn gwenu...

“Daeth i ben deithio byd”, am y tro o leiaf, ond mae munud neu ddau gyda’r “Geoguessr” yn f’atgoffa fod yna fyd mawr lliwgar, deniadol a chyffrous y tu hwnt i wal yr ardd ac mae’n codi awydd i godi pac a mentro unwaith yn rhagor pan ddaw’r cyfle. Ond, am y tro... un rownd fach arall!



‘Ryda ni’n cael ein hatgoffa yn feunyddiol am gymryd gofal wrth ddefnyddio’r gwefannau cymdeithasol rhag i ni, yn ein diniweidrwydd, roi gwybodaeth bersonol a all arwain at dwyll a ffugio, colli arian neu hyd yn oed gollir hawl ar ein personoliaeth ni ein hunain!



Mae diogelu data yn hanfodol, ac 'rydych wedi rhoi caniatâd i mi, fel pwt o Ysgrifennydd y Capel, eich bod yn fodlon i mi ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost ar gyfer rhannu gwybodaeth am y capel – fel arall fyddai gen i ddim hawl i yrru “Gair bach Bethlehem” i’ch côl yn wythnosol!

Ond, pa mor gyfrifol byth yr hoffwn i fod, mae yna gofnod o’r rhif ffôn cartref i yn rhywle go amlwg yng Ngwaelod-y-garth!

Sôn yr ydw i, wrth reswm, am yr hysbysfwrdd sydd tu allan i’r capel, i’r dde o’r drws wrth i chi fynd tuag ato. Fel Ysgrifennydd, mae fy enw a’r rhif ffôn yn gwbl glir arno i bawb sy’n digwydd pasio, a bob hyn a hyn mi fyddaf yn cael galwad gan bobl sydd heb gyswllt â’r capel.

Fel arfer, yn Saesneg y bydd y galwadau rheini, ac yn ddi-feth, geiriau agoriadol y sgwrs fydd “are you something to do with the chapel?”

Yn fy ngwyleidd-dra mi fyddai’n ateb “I suppose so – particularly if it has my name on the wall outside!”

Fel arfer galwadau yn ymwneud a hawl i ddefnyddio’r capel ydynt, i briodas, i angladd, i fedydd, a’r rhai sy’n galw yn esbonio eu bod un a’i byw yn y pentref ar hyn o bryd, neu bod eu teulu yn drigolion yn y blynyddoedd a fu. Un neu ddau hyd yn oed yn sôn eu bod wedi bod i mewn yn y capel ar gyfer Cyngherddau yn y gorffennol.



Cefais un yn ddiweddar yn holi a oedd gennym ddefnydd i’r palets pren sy’n gorwedd ar lawr tu allan i’r capel yn dilyn y gwaith atgyweirio, oherwydd byddent yn gwneud sylfaen briodol i’r cychod gwenyn oedd gan y galwr. Fe rois ganiatâd yn y fan a’r lle, ond sylwaf eu bod yno o hyd - tybed beth ddaeth o’r cychod gwenyn?

Ond weithiau bydd ambell i alwad ffôn yn ddadlennol iawn gan ddod a pheth o hanes y capel yn ei sgil.

Dyna’n union ddigwyddodd yr wythnos diwethaf, pan gefais alwad gan wraig o Lanisien, oedd, wedi iddi fy holi ynglŷn a’r perthynas a’r capel, yn cynnig swp o raglenni Cymanfaoedd Canu dydd Gwener y Groglith imi.

Daeth o hyd iddynt mewn stôl piano perthynas i’r teulu, a oedd, cyn marw, â chyswllt a’r pentref ond nid y capel. ‘Roedd y wraig ei hun yn sôn ei bod wedi bod yn mynychu’r cymanfaoedd yn y gorffennol.

Taflenni (saith ohonynt) yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 1959 ac 1970 oeddynt, ac fel y gwelir o lun taflen 1959, mae yna wybodaeth ddiddorol arnynt am drefn yr oedfaon, yr Arweinydd a’r Pwyllgor Trefnu.


I’r rhai hŷn ohonoch, fe sylwch mai Mr Glyndwr Williams, Nantgarw (bryd hynny, ond Bethlehem yn ddiweddarach), oedd un o’r cyfeilyddion, ac wrth reswm yr ydym yn hynod falch o gael cwmni ei weddw, Mrs Ann Williams, ein aelod hynaf, yn y capel hyd y dydd heddiw.

‘Roedd “Trefn y Rehearsals” wedi ei nodi ar y Daflen, ac hefyd 'roedd yn arferiad i blant y gwahanol gapeli a gynrychiolid (Bethlehem, Glandŵr, Groeswen a Nantgarw) i adrodd yr emynau cyn eu canu yn y Cyfarfod Plant yn y bore. [Nodwch yn ogystal bod enw Capel Bronllwyn, Pentyrch, hefyd yn cael ei gynnwys yng nghylch noddî’r Gymanfa. Rhywbryd rhwng 1964 ac 1970 diflannodd Nantgarw a Bronllwyn o’r cylch noddî.]

A minnau wedi sôn o’r blaen am greu archif Bethlehem, bydd y taflenni yma yn ychwanegiad pwysig at ein dathliadau 150 mlynedd o addoli yn yr adeilad presennol yn 2022.

Beth arall a all fod allan yna tybed, ar hyd ac ar led?

Weithiau mae’n talu i gael eich rhif ffôn mewn man cyhoeddus wedi’r cyfan!



Fe gas bawb enw, er gwell er gwith! Fy e-bost i yw "tanymarian" Pam? Wel, y chi'n ishte'n gyffwrddus? Reit ma ni off!

Marian yw'n enw canol i, a 'se Mam 'di ca'l ei ffordd dyna fydden i, ond Dad enillws, ces fy ngalw'n Hannah ar ôl ei fam. Enw o'r Dwyrain wrth gwrs, dyna o'dd enw mam Samiwel yn y Beibl, a dyna yw enw llawer o ddynon yn y Dwyrain Canol wedi'i sillafu'n "Hana", ond palindrom yw'n un i, yr un llythyre bob ffordd. Nawr, pan o'n i'n blentyn, o'n i'n casáu'r enw achos taw dim ond Mamgu's ne Famgwn o'dd a'r enw pyrt hynny, ac mi es trwy fywyd, ysgol, coleg, gwersylloedd, dysgu, BBC, ac actio heb gwrdd na napod un Hannah arall o ngenhedleth i, ond clywed am Hannah Gordon, yr actores o'r Alban, ac un ne' ddou Anna, er, fel'na o'n nhw'n ynganu'n enw i gatre, achos o's dim "H" yn y wyddor yn Trebo'th! "yfryd" "aul" "onna" yw hi trw'r trwch!



Ond un diwrnod, tua deg mlynedd ar ucen yn ôl, o'n i yn 'Marks and Spencer', a chlywed rhywun yn galw'n enw i. Nawr pan glywn 'na, o'n i'n gwpod taw fi o'dd e. OND! Wedi troi, dyna lle'r o'dd croten fach a'i mam yn ei galw. Odd'ar 'ny ma'r enw wedi llifo nôl fel afon i'r môr, a degau o Hannahs erbyn hyn, a 'dw i wedi galw'r enw o'r gofrestr wrth ddysgu droion. Yn yr w'thdege, pan o'n i'n ffonio adran cytundebe'r BBC, o'n nhw'n ffindo fi'n syth, nawr, ma' nhw ishe mwy o fanylion achos bod ucen a mwy ar eu cyfrifiadur, a mwy na 'na, sawl Hannah Roberts! Ond fi yw'r unig un fintej garantid!!!

Nawr 'te at yr enw canol, Marian.

Yr emyn dôn Tanymarian o'dd hoff emyn Wncwl Dai, brawd 'y nhad, ac o achos fy enw canol, Tanymarian o'dd e'n y ngalw i, a dyna pam y dewishes yr enw i'r e-bost, (ac fe gyfeiriodd Sian Cothi ata i wrth yr enw 'ma ar Bore Cothi yn ddiweddar!) Ond, fel wetws un digrifwr "A ma' na fwy"!

O'n i'n ca'l sgwrs ag un o deulu'r Cilie wthnos 'ma ar y ffôn, John Meirion o Langrannog, a'i fab yn gweiddi "Gofyn iddi am 'i e-bost". Finne'n gweud 'Tanymarian', ac yna'r stori'n dod!

Nôl yn 1901 o'dd côr 'da'r felin wlân yn Nhrefach Felindre, ac fe fydden nhw'n mynd lawr i'r Pentre Arms yn Llangrannog withe i ganu. Wel, o nhw yno nawr, a dyma nhw'n penderfynu mynd i ganu i Ogof y Lleisiau ar y Tra'th Mawr. Ma' 'na ddou dra'th i ga'l, Y Tra'th Mawr, a Cilborth rownd y gornel, a ma rhaid bod yn ofalus bo chi'n dod nôl o Cilborth cyn daw'r teid miwn ne' ma' Carreg Bica'n y'ch carcharu chi yno!

Ma' Ogof y Lleisiau yn sylweddol, a fanny o'dd y bois yn canu. Tra o nhw'n canu, pwy o'dd yn cered lawr y bryn tu ôl o gyfeiriad Lochtyn, ond neb llai nag Elgar, y cyfansoddwr. O'dd e'n dwad i Langrannog bob Haf i aros mewn bwthyn. Wedi clywed y canu, daeth miwn i'r ogof a gwrando. Beth o nhw'n canu? Wel yr emyn dôn Tanymarian, ac yn ôl y sôn, fe gyfansoddodd ddarn o gerddoriaeth a'r emyn yn gefndir iddo!!! Os o's rhyw gerddor sy'n darllen y tipyn hanes ma' yn gwpod beth yw'r darn hwnnw, fydden i'n dwli clywed.

*Os ydych chi am ymateb i gwestiwn cerddorol Hannah – anfonwch at [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com) – ac fe drosglwyddwn y wybodaeth iddi. A, chyn cloi, dyma un pwt arall oddi wrth Hannah*

Cyhoeddwr newydd yn ein capel ni pan o'dd nhad yn ifanc. Ar y nos Sul cynta, o'dd e'n nerfus iawn, ac o'dd e mynd i gyhoeddi "Bydd ysgol gân am whech", a beth wetws e o'dd "Bydd ysgol whech am gân!"

Wetyn, mynd i whileo esgus dros ei hunan a gweud "O, ma'r calla'n colli withe" a beth dda'th mas tro 'ma o'dd:

"Ma colli calla withe!" Pwr dab, da'th gwawr a machlud ei yrfa gyhoeddi fe ar yr un diwrnod.



## Gair gan Delwyn



### *"A 'Haf' of Two Halves!"*

A dyma ni wedi cyrraedd diwedd Gorffennaf, a dechrau gwyliau'r haf, ac eto yn ôl enw'r mis, mae'r haf wedi dod i ben, Gorffen-Haf. Be' sy'n mynd mlaen? Dechrau neu diwedd sy' 'ma? Falle gawn ni gymorth gan iaith arall. Yn Ffrangeg "Juillet", yn Saesneg "July", mis wedi enwi ar ôl yr Ymerawdwr Rhufeinig Iwl Cesar, sef Julius Caesar. A hynny am mai yn y mis hwnnw y cafodd e'i eni. Nawr, nid July o'dd enw'r mis pryd hynny wrth gwrs, ond Quintilis, ond mi o'chi'n gwybod hynny'n barod wi'n siŵr! Beth bynnag, Quintilis

(Gorffennaf) o'dd y pumed mis mewn blwyddyn o ddeg mis, felly roedd e'n dod a hanner cynta'r flwyddyn i ben. Ac mae'n teimlo 'mbach fel yna eleni rywsut, fel tase hanner cynta'r flwyddyn ryfedd hon yn dod i ben, a'n bod ni'n cael toriad, a chyfle i ymwroli cyn wynebu'r ail hanner. A'n gobaith a'n gweddi yw y bydd yr ail hanner yn well na'r hanner cyntaf, gyda bywyd yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

Felly, ar ddiwedd Gorffennaf, ga'i ddymuno Awst da i chi gyd, ac er y bydda'i fel chi i gyd yn colli darllen 'Gair bach Bethlehem' yn wythnosol, ga'i ddymuno gwyliau braf a haeddiannol i Ifan Roberts, gyda mil o ddiolch iddo am ei waith amhrisiadwy, ac i Heulwen a Wyn am eu gwaith gyda'r Ysgol Sul a'r ddarpariaeth "Rithiol" (Gair y flwyddyn tybed?), i blant yr Ysgol Sul am eu cyfraniadau wythnosol a'u llawenydd, ac i bawb sy' wedi bod yn gweithio y tu ôl i'r llenni yn cyfrannu'n dawel at waith Bethlehem.

Dwi am gloi gyda dyfyniad o un o fy hoff gerddi, "Tŷ fy Nhad" gan D. Jacob Davies, i mi mae'n ddisgrifiad perffaith o ryw dy cwrdd, yng nghysgod rhyw fynydd, ar gyrion rhyw brifddinas.

***"Tŷ cyfeillgarwch yw hwn..."***

***Hwn yw gweithdy'r enaid a'i gynnyrch yw cymeriadau mawr a gwasanaeth diflino."***

Tan i ni gwrdd, cadwch yn ddiogel, cadwch mewn cysylltiad, a chadwch y ffydd.

*Delwyn Sion*

## Mae nifer y Cymry Cymraeg yn Dubai wedi lleihau.



Cadarnhaodd Llysgenhadaeth Cymru yn Dubai bod nifer y Cymry Cymraeg yno, un o'r saith o Emiradau yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, wedi lleihau yn sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Gwelwyd chwech ohonynt ym maes awyr y wlad yn paratoi i hedfan yn ôl i Gymru yn ddiweddar, a chafwyd sicrhad gan wylwyr y glannau eu bod i gyd wedi eu gweld yn croesi Ail Bont Hafren ychydig oriau yn ddiweddarach.

Nid oedd unrhyw sylw i'w gynnig ar y mater gan y Sheikh Mohammed bin Rashid Al Maktoum ar ran Llywodraeth y wlad, ond mynegodd Delwyn Sion, Arweinydd Bethlehem, Gwaelod-y-garth, ei fod wedi cael ar ddeall mai trwy gydsyniad, a gyda dymuniadau gorau'r wladwriaeth, y ffarweliwyd a'r criw.

Gwelwyd un ohonynt gan ohebydd "Gair bach Bethlehem" yn crwydro'r Garth yn ystod yr wythnos (gweler y llun), a daeth sicrwydd o sir Benfro bod y teulu arall o bump yn cael seibiant yn un o drefi'r sir am ychydig wythnosau!

Croeso 'nol adref felly i Geraint Passmore, ac i Luned a David Walters a'r merched (Lea Mai, Betsan Haf ac Esther Gwenllian), gan ddymuno'n dda iddynt wrth ddychwelyd i Gymru wedi cyfnod o flasau bywyd yn un o wladwriaethau'r Dwyrain Canol.

Edrychwn ymlaen i gael eu cwmni a'u cyfraniad i Fethlehem unwaith yn rhagor wedi iddynt gael eu traed 'danynt, a mynegi pob llwyddiant iddynt

wrth ymgynefino a'u swyddogaethau newydd o fewn y dalgylch.

## ODLAU'R GARTH

### Canu'r gyfalaw

*I John Griffiths, (un o gerddorion y grŵp Edward H, fu farw yn Chwefror 2018) – brawd-yng-nghyfraith i awdur y gerdd, Martin Huws.*



Shwd deimlad  
o'dd delwi  
wrth i'r delyn ganu'r gainc  
cyn i ti ganu'r gyfalaw?  
Hyn ar fore difater  
o fla'n beirniaid oeraidd  
mewn neuadd heb luniau.

Ond nid rhagbrawf mo hwn.



Rywsut ffrwyna'r ffrind agos o bregethwr  
geffylau strae ei alar  
cyn llinell gynta'r emyn ('Calon Lân')  
sy'n don  
yn sgubo graean bras  
ein rhagdybiaethau.

*Martin Huws*

### "Gair bach Bethlehem"

Holodd nifer am enw awdur yr englyn isod,  
ddosbarthwyd yn sgil yr e-bost ar gyfer rhifyn 16 o  
'Air bach Bethlehem':

***Oer yw'r Garth; Bethlehem ar gau - cyn heuwyd  
Cynhaeaf o eiriau.***

***Eto, cnwd ddaw o'r Tŷ Cnau  
Yn eglwys o erthyglau.***

Yr awdur (a nodwyd fel un di-enw ar y pryd) oedd  
Rhys Powys. Diolch, Rhys!

***Cofiwch – er na fydd yna rifyn yr wythnos nesaf nac am weddill mis Awst, gallwch anfon gair i'w gynnwys yn nechrau Medi. I gyflwyno eich erthygl nesaf (cyn diwedd Awst) ar gyfer 'Gair bach Bethlehem', anfonwch air at Ifan Roberts:***

***tycnau@aol.com / 077 61 82 69 77 neu ysgrifennwch ar bapur at Tŷ Cnau, Cefn Bychan, Pentyrch, CF15 7PG***

***Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu dros yr 18 wythnos fu'n ddigon anodd i bawb. A chofion atoch i gyd.***